**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

13 Mehefin 2023

Annwyl Jayne

**ADRODDIAD GWRANDAWIAD CYN PENODI PRIF WEITHREDWR Y COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am adroddiad y gwrandawiad cyn penodi ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo penodiad Simon Pirotte OBE yn dilyn ei wrandawiad cyn penodi. Rwyf wedi cadarnhau penodiad Simon mewn Datganiad Ysgrifenedig wedi hynny, ac edrychaf ymlaen at ei weld yn dechrau ar y swydd ym mis Medi.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y broses ar gyfer y penodiad hwn ac, er fy mod yn sylweddoli nad yw safbwyntiau'r Pwyllgor ar y broses yn adlewyrchu ar addasrwydd Simon ar gyfer y rôl, roeddwn am ymateb ar rai agweddau sy'n ymwneud â'r broses.

Rwy'n gwerthfawrogi bod gan y Pwyllgor bryderon ers tro am y broses gwrandawiad cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ond fel y mae'r adroddiad yn ei gydnabod, nid penodiad cyhoeddus oedd hwn. Penodiad Gweinidogol yw'r person cyntaf a benodir yn Brif Weithredwr y Comisiwn fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fodd bynnag, i gydnabod y rôl sylweddol y mae'r Pwyllgor yn ei chwarae ym myd addysg a phwysigrwydd y penodiad hwn, ymrwymais i wrandawiad rhagarweiniol yn ystod hynt y Ddeddf. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig, yn anad dim oherwydd nad yw'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Roeddwn yn amlwg yn siomedig pan gefais wybod nad oedd y panel recriwtio yn gallu argymell ymgeisydd addas i'w benodi yn dilyn proses recriwtio helaeth, agored a chadarn. Felly, ystyriais gyngor proffesiynol gan swyddogion a'n cwmni chwilio gweithredol penodedig ar rinweddau ailgynnal y broses. Roedd y cyngor hwn yn glir ynghylch y risgiau gweithredol i sefydlu'r Comisiwn a oedd yn gysylltiedig ag ailgynnal y broses a'r tebygolrwydd y byddai'n cynhyrchu canlyniad gwahanol mor fuan ar ôl cwblhau'r broses gychwynnol. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi bod chwiliad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


gweithredol eisoes wedi cysylltu â 190 o ymgeiswyr posibl o bob rhan o’r sector addysg drydyddol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Rwy’n gweld mwy a mwy o argymhellion a cheisiadau i’r Comisiwn weithredu mewn ffyrdd penodol cyn iddo gael ei sefydlu hyd yn oed, fel y gwelsom yn adroddiad y Pwyllgor ei hun ar Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch. Mae’n hanfodol y gall y Comisiwn wneud penderfyniadau mewn meysydd y bydd ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Yn syml, ni fyddai’r Comisiwn wedi’i sefydlu ym mis Medi pe na bawn wedi penderfynu symud i benodiad uniongyrchol, ac ar ben hynny nid oes sicrwydd y byddai’r Comisiwn wedi bod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024 pe bai’r ymarfer recriwtio wedi’i ailgynnal. Roeddwn o’r farn bod hyn yn ganlyniad annerbyniol i ddysgwyr yng Nghymru.

Nodaf fod adroddiad y Pwyllgor i’r Prif Weithredwr yn tynnu sylw at *“bryderon rhanddeiliaid yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil ynghylch diogelu annibyniaeth y Comisiwn. Mae’n bwysig nad yw’r broses recriwtio ar gyfer y swydd hollbwysig hon yn bwrw amheuaeth ar hynny mewn unrhyw ffordd”*. Rwy’n cytuno’n llwyr ei bod yn bwysig ein bod yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn ond hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod penodiad Simon wedi’i groesawu’n eang ar draws y sectorau ôl-16 amrywiol. Nid camp fach yw hon ac, wrth gwrs, nid oes sicrwydd y byddai ailgynnal proses recriwtio agored wedi arwain at y canlyniad hwn.

Yn adroddiad gwrandawiad cyn penodi’r Pwyllgor sy’n cymeradwyo penodiad Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn, fe wnaethoch gyfeirio at eich *“siom nad yw cymysgedd cefndiroedd y ddau benodiad yn rhoi effaith i ehangder y sector”*. Rhoddais ystyriaeth ofalus i ymdrin â’r pwynt hwn wrth benodi’r Prif Weithredwr ac rwy’n hyderus bod sgiliau a phrofiad Simon yn ategu rhai yr Athro Fonesig Julie Lydon a’r Athro David Sweeney, gan sefydlu tîm arwain uchel ei barch sy’n gallu cyflawni ein gweledigaeth arloesol ac uchelgeisiol ar gyfer sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language